**<u>Cofnodion y pedwerydd cyfarfod ar ddeg ar hugain o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd</u>**

Ystafell Gynadledda 24, Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, dydd Mercher 9 Hydref 2013
6.00pm

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol:**

Nick Ramsay AC (Cadeirydd) (Ceidwadwyr Cymreig, Mynwy)
Mohammed Asghar AC (Ceidwadwyr Cymreig, Dwyrain De Cymru)
Russell George AC (Ceidwadwyr Cymreig, Sir Drefaldwyn)
Byron Davies AC (Ceidwadwyr Cymreig, Gorllewin De Cymru)
William Graham AC (Ceidwadwyr Cymreig, Dwyrain De Cymru)
Mark Isherwood AC (Ceidwadwyr Cymreig, Gogledd Cymru)

**Yn bresennol:**

Phil Hughes
Martin Buckle
Alan Platt
Stephen Rowson
Brian Hancock
Richard Preece
John Gwalter
Raoul Shambral
Julian Atkins
Gillian Billsborough
Richard Owen
John Bridgeman
Peter Cole
Richard Wyson
Robert Moreland
Thomas Maloney
Ed Townsend
Chris Yewlett
John Griffiths
Margaret Gwalter
Matt Strickland
Gwyn Lewis
Gareth Jones
John Davies
Pam Jones
Carole Jacob
Dr Ann Robinson

**Eitem 1: Croeso**

Croesawodd Nick Ramsay AC, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol bawb i'r cyfarfod, a rhoddodd amlinelliad o'r agenda ar gyfer y cyfarfod. Ymddiheurodd y bydd yn ofynnol i ohirio'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol tan ddechrau cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol, neu o fewn blwyddyn.

**Eitem 2: Cyflwyniad gan James Byrne, Rheolwr Tirwedd Fyw, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru**

'Dŵr a Gwasanaethau Ecosystem ar Lefel y Dirwedd'- *Bu James Byrne yn trafod dull gweithredu ecosystemau o ran dŵr, a phwysleisiodd mor bwysig yw tirwedd fyw a lles.*

Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru yw'r corff ambarél sy'n gyfrifol am y chwe ymddiriedolaeth bywyd gwyllt lleol yng Nghymru. Mae gan y corff 11 Tirwedd Fyw yng Nghymru ac mae pob un ohonynt yn ymwneud a dŵr a rheolaeth dŵr ar ryw ffurf. Mae gofalu am dirweddau byw yn llesol, nid yn unig i fywyd gwyllt a chreaduriaid gwlyptiroedd, ond hefyd i ni.

Mae gwerth economaidd dŵr i Gymru yn anferth. Mae gan Dŵr Cymru gyfanswm o 6,000 o gyflogeion. Fodd bynnag, un broblem fawr yw llygredd. Mae 60% o lygredd gwasgaredig yn deillio o amaethyddiaeth, ac mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif ei bod yn costio £1.3 biliwn y flwyddyn i ddatrys y broblem. Nid ydym yn rheoli'r tir mewn ffordd gynaliadwy, ond gallwn newid hynny. Er enghraifft, gall mwsogl mawn a sphagnwm gyflawni swyddogaeth gynaliadwy.

Mae llifogydd yn broblem fawr arall. Costiodd llifogydd yn Sir Ddinbych £1 miliwn i yswiriant y cyngor lleol. Rhan o'r ateb yw mwsogl mawn, a all hwn amsugno ugain gwaith ei bwysau. Byddai'n costio £16m i adfer yr holl fwsogl mawn, ond gallai ddarparu llyn ar gyfer dŵr glân, sicrhau bod llai o lifogydd a sicrhau bod dŵr yn rhatach. Mae'r rheoleiddiwr dŵr, OFWAT, yn amcangyfrif cymhareb gost o 65-1 ar gyfer adfer gwasanaethau dŵr.

*Mae copi o'r cyflwyniad hwn ar gael ar gais.*

**Eitem 3: Cwestiynau ar gyfer James Byrne**

Nododd Coral Jacobs (Cyfeillion y Ddaear Cymru, Torfaen), os gall llywodraethau weld y budd economaidd, dyma fyddai'r ffordd ymlaen.

Atebodd James Byrne ei fod wedi siarad ag Alun Davies AC a Gweinidogion eraill, ac nid gan yr adran Cyfoeth Naturiol yn unig y ceir yr ateb, ond mae angen cefnogaeth yn hyn o beth gan bob adran. Mae un swydd ym mhob chwech yng Nghymru yn dibynnu ar amgylchedd iach.

Nododd Brian Hancock (cyn Aelod Cynulliad, a sylfaenydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd) fod technolegau ar gael a allai helpu. Technoleg y gorsen, ond mae angen gwelyau ar gyrs. Mae llystyfiant yn sugno nitradau a mwy o'r tir.

Nododd Julian Atkins (Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo ) y gellir rheoli dulliau o gloi carbon gan ddefnyddio technoleg, ac mae angen i ni gysylltu materion sy'n ymwneud â'r tirwedd â'r manteision niferus sydd ar gyfer cymdeithas.

**Eitem 4: Cyflwyniad gan Cat Griffiths Williams, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig**

'Dyfrffyrdd a Thirweddau Hirfain ' - *Canolbwyntiodd Cat ar rôl dyfrffyrdd fel "tirweddau hirfain," sy'n creu eu cyfleoedd eu hunain i ddangos rôl dyfrffyrdd fel "asedau treftadaeth fyw" o safbwynt diwylliannol, economaidd a chymdeithasol.*

Mae tirweddau estynedig yn gyfrwng ar gyfer sicrhau lles a ffyniant cymdeithasol. Gellir eu diffinio â pharthau, ardaloedd ac ymwelwyr, ac mae'r nodweddion yn rhai naturiol a diwylliannol, ac maent yn datblygu dros gyfnod o amser. Mae dyfrffyrdd yn enghraifft berffaith, gan eu bod yn dod ag elfennau hamdden a phleser i'r darlun. Maent yn goridorau glas amlswyddogaethol sy'n cyfuno diwylliant, treftadaeth a'r amgylchedd. Mae hanes a diwylliant yn gefndir i lwybrau halio - ond, ai felly yr ydym yn eu gweld? Rhaid i ni eu gwarchod, nid am resymau economaidd, ond oherwydd bod angen gwarchod gwerth yr asedau. Gwerthoedd hanesyddol sydd i'r rhain, a hunaniaeth amgylcheddol, a rhaid gwarchod y llafur sydd ar gael yn lleol, a'r uchelgais sy'n bodoli yng nghefn gwlad. Mae'n bwysig cydnabod budd pob un ohonynt.

*Mae copi o'r cyflwyniad hwn ar gael ar gais.*

**Eitem 5: Cwestiynau i Cat Griffiths Williams**

Dywedodd Alan Platt (Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol – Ardal Amwythig a Gogledd Cymru) eu bod ill dau o'r un farn. Cyflwynwyd eu cynllun o ran parciau hirfain. Byddai'r parciau hyn yn creu ffrwd o fewn y ddinas, ac yn dod ag ardal wledig i mewn i'r ddinas.

Dywedodd Peter Cole (Twristiaeth y Brifddinas a'r Rhanbarth) bod penbleth yn cael ei greu yn sgîl meddwl ar sail parc hirfain ac ar sail y gyrchfan. Mae'n bwysig ein bod yn cyflwyno golwg a chyrchfan llyfn a thaclus, y tu hwnt i lannau'r dŵr hefyd. O ran twristiaeth, gallai ffurfiau hirfain fod wedi bod yn thema, er enghraifft, ar gyfer dathlu 200 mlwyddiant Gŵyl y Camlesi y llynedd, a Gŵyl Gwy y flwyddyn nesaf. Mae'r dewis ar gael i'w ddefnyddio yn y naill ffordd neu'r llall.

Gofynnodd Brian Hancock (cyn Aelod Cynulliad, a sylfaenydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd) pam rydym yn ei chael hi mor anodd i gael arian ar gyfer twristiaeth er mwyn sicrhau bod twristiaid yn ymweld?

Atebodd Nick Ramsay AC (Cadeirydd) ei fod yn cytuno, ac nid oedd hwn yn fater a oedd yn amlwg, hyd yn oed yn y Bil Teithio Llesol. Pam tybed?

Atebodd Cat Griffiths Williams (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig) fod budd y £6m yn dechrau treiddio yn awr.

Atebodd James Byrne (Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru) yw mai'r hyn y mae ef yn ei weld yw bod llywodraethau yn hoff o'r ystadegau cost gymharol o 65-1 ac ati, ac maent yn cytuno y byddant yn gweithredu, ond, yna daw cwmni arall, a dweud ei fod yn awyddus i adeiladu rhywbeth ac mae'r llywodraethau'n sicr o ddewis adeiladu yn hytrach nac adfywio rhywbeth.

Dywedodd Peter Cole (Twristiaeth y Brifddinas a'r Rhanbarth) mai gwlad fach yw Cymru a bod neges syml i'w chyfleu yma. Mae angen i'r rhai sy'n hyrwyddo'r neges hon siarad ag un llais.

Gwnaeth Mark Lang (Cadeirydd, Glandwr Cymru) y sylw, nad oedd hyn er budd pobl gyfoethog sy'n berchen cychod drudfawr yn unig. Mae ar gyfer y 96% o bobl sy'n defnyddio llwybrau halio. Beth yw cyfraniad Sir Fynwy a Sir Frycheiniog i Lyn Ebwy? A allwn ni ateb hynny?

Dywedodd John Bridgeman (Is-lywydd ac Ymddiriedolwr, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd) fod Llywodraeth yr Alban wedi gwario £100 miliwn ac mae'r buddion yn amlwg. Mae adfer yn ffasiynol unwaith eto erbyn hyn. Mae'n llwyddiannus, ond a ydym yn rhannu'r arfer gorau hwn?

Atebodd Cat Griffiths Williams nad ydym mae'n debyg, fel y soniodd Peter Cole, mae angen i ni gysylltu â'n gilydd a siarad ag un llais.

Nododd Thomas Maloney (Canolfan Gamlesi Fourteen Locks) ei bod yn braf gweld bod dyfrffyrdd yn parhau i fod yn eitem ar yr agenda. Mae'r dirwasgiad wedi ein llethu. Mae hwn yn fater mor bwysig fodd bynnag.

Nododd un aelod o'r Grŵp ei bod hi wedi rhoi ei harian ei hun i geisio helpu yn hyn o beth. Mae hi am gael ecosystemau. Mae cais wedi'i wneud, a chynhaliwyd gwrandawiad cyhoeddus ac mae Cynllun Datblygu Lleol ar waith. Ar ôl brwydro am 17 mlynedd, gallai'r holl waith fod yn ofer. Mae angen arian i'w roi ar waith. Mae hyn ynglŷn â sicrhau bod tir gwyrdd nad yw wedi'i ddatblygu, rhwng Cwmbran a Phont-y-pŵl, gydag anfon rhyngddynt. Mae 12,000 o dai wedi'u cynnig ar y naill ochr a'r llall. Maent wedi cyrraedd y pen draw.

Dywedodd Stephen Rowson (Awdur Prosiect Camlesi Sir Forgannwg) na fyddai twf Glyn Ebwy wedi digwydd mor gyflym oni bai am y gamlas.Mae hanes camlesi'r un peth â'r rheilffyrdd a'r ffyrdd tramiau ac ati. Mae mudiad Cerddwyr y Rheilffyrdd yn tynnu sylw at hyn, ond beth sy'n cyfateb iddo o ran dyfrffyrdd?

Nododd Mark Lang (Cadeirydd, Glandwr Cymru) mai'r cwestiwn y dylem ei ofyn yw, beth y gall eu cyfraniad fod ar gyfer y dyfodol? Nid beth y maent wedi'i gyflawni yn y gorffennol.

**Eitem 6: Unrhyw fater arall**

Bu Richard Owen (ar ran Pysgotwyr) yn trafod mynediad at ddŵr mewndirol yn hytrach na mynediad at gamlesi, a gofynnodd a fyddai modd i hwn fod yn eitem ar agenda'r Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol? Mae datblygiadau newydd ar gyfer cynnig y Papur Gwyrdd, felly mae hwn yn fater brys. John Griffiths sy'n arwain ar y mater. Mae ei safbwynt ef yn groes i neges yr adroddiad (ar yr Ymchwiliad i Fynediad i Ddyfrffyrdd), a nododd nad drwy ddeddfwriaeth y mae sicrhau datblygiadau.

Cytunodd Nick Ramsay AC (y Cadeirydd), ac awgrymodd, efallai y byddai'n ofynnol gofyn am ragor o wybodaeth gan y Gweinidog.

**Eitem 7: Cloi**

Diolchodd Nick Ramsay AC (y Cadeirydd) i bawb am ddod i'r cyfarfod ac eglurodd y byddai cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd yn cael ei gynnal ddydd Mercher, 4 Rhagfyr.

**Bydd y cyfarfod nesaf Ddydd Mercher, 4 Rhagfyr 2013**